

# Anecs 1 – Meini Prawf Gorfodi Diogelwch Bwyd

**Nod:** sicrhau bod camau gorfodi diogelwch bwyd yn briodol ac yn cadw at Bolisi Gorfodi Corfforaethol y Cyngor a bod y camau hynny yn seiliedig ar **gysondeb, tegwch, cymesuredd, tryloywder** a **gwrthrychedd**. Lle bo angen gweithredu, rhoddir ystyriaeth i egwyddorion gorfodi da a sefydlwyd yng Nghod y Rheoleiddiwr. Wrth benderfynu ar y math o gamau gorfodi i'w cymryd, dylai swyddog awdurdodedig roi sylw i natur yr achos o dorri rheolau a hanes cydymffurfedd gweithredydd y busnes bwyd neu asesiad o barodrwydd gweithredydd y busnes bwyd i gyflawni'r gwaith a nodir gan y swyddog.

Yn y cyd-destun gorfodi diogelwch bwyd arferol, gall camau yn erbyn Gweithredydd y Busnes Bwyd (FBO) symud o anffurfiol i ffurfiol ac mae'r tabl isod yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl gamau gorfodi sydd ar gael:

Anffurfiol »	« Ystyried yr hysbysiad »	» Angen Hysbysiad / FPN	Cau'n Wirfoddol	Atafaelu a Chadw	Gwaharddiad	Erlyniad / Rhybudd Syml
<ul style="list-style-type: none"> <li>Achos o dorri rheolau y gellir eu datrys yn gyflym e.e. Glanhau (gweithgareddau dros dro)</li> <li>Rheolau a dorrwyd – bach o berygl i iechyd y cyhoedd</li> <li>Mae'r FBO yn cytuno i wneud gwaith o fewn y terfynau amser priodol (lle nad yw eiddo yn cydymffurfio ar y cyfan, rhaid cadarnhau'r gwaith drwy lythyr)</li> <li>Hanes blaenorol da o ymateb i geisiadau anffurfiol</li> <li>Cynnydd da gyda gwelliannau ac wedi eu darparu o fewn y terfynau amser a gytunwyd arnynt</li> <li>Safon dda o waith, gwelliannau parhaol i'r busnes</li> </ul>	<p><i>Symud o anffurfiol i ffurfiol yn dibynnu ar:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>hanes blaenorol yr FBO</li> <li>Graddfa'r busnes / nifer y defnyddwyr mewn perygl</li> <li>Difrifoldeb y methiant</li> <li>Goblygiadau peidio â gwella</li> <li>Ceisiadau neu gyngor blaenorol (ysgrifenedig, llafar neu arall)</li> <li>A oes Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol ar waith.</li> <li>Bwyd anniogel ar y farchnad.</li> </ul>	<p><b>Hysbysiadau Cadw ac Atafaelu HEPN<sup>1</sup>, EPN<sup>2</sup>, HIN<sup>3</sup>, IN<sup>4</sup>, RAN<sup>5</sup></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>FBO yn gwrthod cytuno i'r gwaith</li> <li>Yn cytuno ar y gwaith ond dim ymgais i weithredu o fewn yr amserlen ofynnol</li> <li>Wedi cytuno ar y gwaith ond y cynnydd yn araf neu wedi dod i ben neu wedi methu â chwrrd â'r amserlen a drafodwyd</li> <li>Busnes yn cael ei redeg i safon isel ac yn annhebyg o wella o ran ei hun</li> <li>Nid yw'r bwyd wedi ei gynhyrchu, prosesu na'i ddosbarthu'n unol â 'Rheoliadau Hylendid'</li> <li>Bwyd anniogel ar y farchnad</li> </ul> <p><b>Hysbysiad Cosb Benodedig (FPN)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Methiant i arddangos sgôr hylendid bwyd na chydymffurfio â gofynion deunydd cyhoeddusrwydd</li> </ul>	<p>Cyflwr perygl i iechyd yn bodoli:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Perygl ar unwaith a</li> <li>Hyderus y bydd yr FBO yn parhau ar gau nes y cytunir i ailagor</li> </ul> <p>⇒ Gall yna gytuno i gau'n wirfoddol (ond nid oes rhaid iddynt)</p>	<p>Bwyd anniogel wedi ei roi ar y farchnad nad yw'n bodloni gofynion diogelwch bwyd</p> <p>Yr FSA yn cyhoeddi Rhybudd Bwyd</p> <p><b>Camau gwirfoddol yn cael eu hystyried lle:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r perchennog yn cytuno gan gynnwys costau</li> <li>bydd bwyd yn cael ei ddinistrio ac nid oes perygl y bydd y bwyd yn cael ei adfer ac yn dychwelyd i'r gadwyn fwyd</li> </ul>	<p>Amod perygl i iechyd yn bodoli:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbysiad (a Gorchymyn) Gwahardd Brys o ran Hylendid</li> </ul> <p>Perygl ar unwaith o niwed i iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hysbysiad Gwahardd Brys</li> </ul>	<p><b>Erlyniad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Troseddau difrifol sy'n peryglu'r cyhoedd neu unigolyn</li> <li>Bwriadol, di-hid, esgeulus neu gyson</li> <li>Anwybyddwyd rhybuddion blaenorol</li> <li>Ymosod neu atal Swyddog</li> <li>Methiant i dalu FPN</li> </ul> <p><b>Rhybudd syml –</b> fel rhagofal lle mae'r FBO yn cyfaddef trosedd ac yn cytuno i gael rhybudd</p>

<sup>1</sup>HEPN - Hygiene Emergency Prohibition Notice, <sup>2</sup>EPN – Emergency Prohibition Notice, <sup>3</sup>HIN – Hygiene Improvement Notice, <sup>4</sup>IN – Improvement Notice, <sup>5</sup>RAN – Remedial Action Notice

Egwyddorion Arweiniol:

- Rhaid i'r cam fod yn seiliedig ar risg, yn rhesymol a chyson gydag arfer da
- Agwedd raddedig ac addysgol i gael ei defnyddio
- Camau ffurfiol lle nad yw'r camau anffurfiol yn cyflawni'r effaith a ddymunir